Canllawiau Sylfaenol ar Ddathlu'r Cymun Bendigaid

Cyflwyniad

Ers y cyfnod Cristnogol cynharaf, mae'r gair Ewcharist, sy'n dod o'r gair Groeg am 'ddiolchgarwch', wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r sacrament a sefydlwyd gan Iesu Grist yn y swper olaf. Mewn ffyddlondeb i gyfarwyddyd ein Harglwydd i 'wneud hyn er cof amdanaf' roedd yr Ewcharist neu'r Cymun yn cael ei ystyried o'r herwydd fel rhan hanfodol o addoli yn yr eglwys gynnar, a heddiw'r Cymun yw gweithgaredd litwrgïaidd canolog y sawl sydd wedi'u bedyddio o hyd.

Nid yw, ac ni ddylai'r Cymun gael ei ystyried yn gaeedig. Yn unol â gorchymyn Crist i'w ddilynwyr, mae'r Cymun Bendigaid yn ein dwyn ynghyd i'w bresenoldeb. Heb golli'r ymdeimlad o ddirgelwch sy'n parhau i fod wrth wraidd y sacrament, mae modd i bawb deimlo'u bod wedi'u cynnwys wrth inni ymgynnull o gwmpas Bwrdd yr Arglwydd. Mae adnoddau ar gyfer dathlu'r Cymun i bob oed a chanllawiau ar gyfer plant a'r cymun ar gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru.

Heddiw, y dathliad o'r Cymun fel ein prif weithred o addoli yw wyneb cyhoeddus yr Eglwys, ei ffenestr siop fel petai, ac fel y cyfryw dylem ymdrechu i wneud y Cymun yn achlysur teilwng o'n galwedigaeth. Bwriedir i'r nodiadau a'r awgrymiadau yn y ddogfen hon annog hyn. Ni ddylai dim sy'n dilyn fod yn agoriad llygad mawr; ond gobeithio y bydd yn ffordd ddefnyddiol o'n hatgoffa am y sacrament, yn ordeiniedig a lleyg fel ein gilydd.

Canllawiau cyffredinol

1. Y rheol sylfaenol yw mai bwriad addoliad (offrymu ein mawl - neu werthfawrogiad - i Dduw) yw rhoi gogoniant i Dduw a denu'r ffyddloniaid i berthynas llawn gras sy'n bywiocáu gyda Duw. Mae popeth sy'n cyfrannu at y nod hwn yn gadarnhaol; mae popeth sy'n tynnu sylw oddi wrtho'n negyddol. Beth bynnag fo'ch traddodiad eglwysig, gall yr addoliad mwyaf cyffredin a symlaf fywiocáu; bydd addoliad hunanymwybodol o ffyslyd a rhodresgar o unrhyw fath yn amharu. Yn ei hanfod, *cyfarfyddiad nid perfformiad* ydyw.

2. Nid yr offeiriad yw ffocws canolog y litwrgi, ond Crist ei hun. Mae unrhyw addoliad sy'n cyfeirio sylw'r ffyddloniaid tuag at yr offeiriad yn denu sylw oddi wrth y berthynas ganolog yn hytrach na'i gwella.

3. Dylai popeth gael ei wneud gyda pharch ac urddas priodol. Dylai unrhyw litwrgi gael ei baratoi'n dda, ac wrth ei weithredu, dylai uniondeb a gras wedi'u llywio gan ymdeimlad o ddathlu fod yn amcanion sylfaenol. Hyd yn oed os oes camgymeriad, dylai popeth gael ei wneud i leihau effaith y gwall a chynnal hynt y litwrgi.

4. Mae addoliad yn ei ystyr lawnaf yn golygu ymgysylltu â'r person cyfan: calon, meddwl a gweithred. Gall y defnydd llawnaf o'r holl synhwyrau gael ei annog yn briodol gyda drama'r litwrgi'n cael ei gyfoethogi drwy olwg, sain, arogl, blas a chyffyrddiad. Mae enghreifftiau'n cynnwys lliw litwrgaidd, eiconograffeg, emynau, arogldarth, cymun, a rhannu'r heddwch.

Cerddoriaeth

5. Prif ffocws yr addoliad yw Duw, ac mae angen i'r gerddoriaeth wasanaethu, yn hytrach na rheoli, y litwrgi. Efallai ei bod yn bwysicach ystyried *cyfarfyddiad nid perfformiad* yn y cyswllt hwn. Ni ddylid caniatáu byth i'r gerddoriaeth ddenu sylw oddi wrth y litwrgi, sef gwaith holl bobl Dduw. Dylai cerddoriaeth ddyrchafu a gwasanaethu, ac ni ddylai byth amharu ar hynt y litwrgi.

Sefyll, eistedd, penlinio

6. Rydym yn fodau corfforol: gall ein hymarweddiad ategu neu dynnu oddi wrth yr addoliad. Dylai clerigion fod yn gyfarwydd â'r holl brif fathau o osgo mewn gweddi (orans, ymgrymu, penlinio, gwneud arwydd y groes, y fendith) beth bynnag yw eu traddodiad, fel y gallant eu cyflawni, os oes angen, gydag urddas a gras. Mae'n bwysig cerdded gydag urddas, mewn modd pwrpasol ond hamddenol, gyda dwylo llonydd, wedi'u plethu ynghyd o'ch blaen o bosib, fel nad ydynt yn amharu ar yr addoli.

7. Bydd ymarweddiad ac osgo wrth allor sy'n wynebu'r dwyrain yn wahanol o ran arddull i'r hyn a wneir wrth wynebu'r gorllewin. Bydd maint yr adeilad yn ffactor arall hefyd wrth benderfynu ar ymarweddiad ac osgo. Fodd bynnag, beth bynnag fo'r amgylchedd, dylai unrhyw symudiadau fod yn syml, yn hawdd eu gweld ac yn ddealladwy i bawb. *[Gweler yr Atodiad, nodyn 1, am ganllawiau ar ddathliadau sy'n wynebu tua'r dwyrain / gorllewin.]*

8. Nid yw litwrgi da yn ymwneud â chreu sioe (na'r ego) ond gwasanaethu i addoli Duw ac anghenion y gynulleidfa. Lle bo'n ymarferol, er enghraifft, dylai trefniadau eistedd y rhai sy'n gwasanaethu wrth yr allor wneud rôl y llywydd yn glir.

Gwisg

9. Mae'r traddodiad Anglicanaidd yn caniatáu amrywiaeth eang o wisgoedd. Er ei bod yn bwysig nodi nad yw'r Eglwys yng Nghymru yn cysylltu unrhyw arwyddocâd athrawiaethol arbennig ag unrhyw urddwisg benodol, mae'r defnydd o wisgoedd ar gyfer addoliad Ewcharistaidd yn rhan o'r traddodiad o addoliad y mae Anglicaniaid wedi'i etifeddu. Beth bynnag fo'r urddwisgoedd y gall fod yn draddodiad i'w defnyddio mewn eglwys, dylai gwisgoedd fod yn lân bob amser, mewn cyflwr da, ac yn ffitio'r person sy'n eu gwisgo. Dylai pob clerig fod yn gyfarwydd â'r holl wisgoedd litwrgaidd amrywiol, a deall eu hanes a'u defnydd. Yn yr un modd, dylai'r dilyniant o liwiau litwrgaidd fod yn hysbys, dylid ei addysgu a'i deall. *[Gweler yr Atodiad am nodiadau ar y flwyddyn litwrgïaidd.]*

10. Nid tegan i unrhyw offeiriad neu weinidog roi'r gorau iddo nac ymbleseru ynddo yw'r traddodiad o addoli. Dylem fod yn ymwybodol bob amser bod trysorfa'r gorffennol ar gael i wella'r presennol. Byddai'n dda meddwl bod y rheolau sylfaenol yn gwbl hysbys, ond mae yna sefyllfaoedd lle gwelwyd clogyn yn cael ei wisgo dros gasul, stola dros gwfl, sgarff gydag alb. *[Am ganllawiau, gweler yr Atodiad, nodyn 2.]*

Gwisgo'r Allor

11. Eto, mae yna amrywiaeth eang o arferion ar waith, ond dylid ystyried ceinder fel rheol sylfaenol. Sut bynnag y bydd yr allor yn cael ei gwisgo, dylai clerigion sicrhau eu bod nhw a'u cynulleidfa'n gyfarwydd â'r rhesymau dros ei gwisgo felly. Dylai'r lliain teg fod yn lân ac wedi'i smwddio. Dylai'r cysegr a'r cyffiniau fod yn arbennig o lân ac yn daclus fel sy'n addas i ganolbwynt ar gyfer defosiwn. Dylai'r allor gael ei chadw ar gyfer ei diben litwrgïaidd a dim arall.

Dathlu'r Litwrgi

12. Mae'r arfer o offeiriad unigol yn llywyddu trwy gydol y litwrgi i'w ganmol a'i annog. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod pob rhan o'r litwrgi yn eiddo i'r offeiriad yn unig. Dylai'r rhai sy'n trefnu dathliadau'r Ewcharist fod yn gwybod ac yn gallu didoli'r rhannau sy'n perthyn i'r offeiriad, i'r diacon, ac i'r lleygion. *[Gweler yr Atodiad, nodyn 3.]*

13. Mae'r defnydd o ddistawrwydd yn rhywbeth i'w annog. Dylai awyrgylch croesawgar ac o baratoad a disgwyliad tawel a gweddigar ategu'r amser cyn y Cymun ac ar adegau priodol yn y litwrgi ei hun. Mae angen i dawelwch gael ei ystyried a bod yn bwrpasol a dylid helpu'r gymuned addoli i werthfawrogi ei werth. *[Gweler yr Atodiad, nodyn 4, am ffyrdd i ddatblygu'r defnydd o dawelwch.]*

14. Dylai'r litwrgi fynd rhagddo heb fod yn rhy araf nac yn rhy gyflym. Dylid ynganu geiriau'n glir er mwyn cyfleu eu hystyr, heb or-ddramateiddio.

15. Ni ddylai'r defnydd o'r gair "chi" yn y gollyngdod gael ei deall fel rhywbeth sy'n gosod yr offeiriad ar wahân i'r gynulleidfa na'i angen ef neu hi ei hun am faddeuant Duw; mae'n arfer y ddyletswydd offeiriadol i ddatgan gollyngdod Duw i'r bobl sy'n chwilio am faddeuant Duw, ac mae'n rhan annatod o'r awdurdod a addysgir yn yr ysgrythur ac a roddir mewn ordeiniad offeiriadol.

16. Mae'n briodol bod y ddarllenfa yn cael ei gweld fel canolbwynt priodol ar gyfer Gweinidogaeth y Gair a'r allor ar gyfer Gweinyddiaeth y Sacrament. Efallai y bydd llyfr yr Efengyl yn cael ei osod ar yr allor ar ei ben ei hun ar ddechrau'r Cymun, ond ni ddylid ei roi yn ôl ar yr allor ar ôl cyhoeddi'r Efengyl.

17. Diacon sy'n cyhoeddi'r efengyl fel arfer, lle mae un ar gael. Mae'n briodol i'r gynulleidfa sefyll i gyfarch cyhoeddiad yr Efengyl ac i wynebu'r darllenydd. Yn unol â thraddodiad eglwys, cymeradwyir gorymdaith Efengyl i gorff yr eglwys, yn yr un modd ag unrhyw gamau litwrgïaidd eraill a fydd yn pwysleisio'r anrhydedd a roddir i'r Efengyl ac a fydd yn rhoi urddas iddo wrth ei gyhoeddi. Gan fod yr Efengyl ei hun yn ganolbwynt unrhyw orymdaith Efengyl, nid yw'n briodol i groes orymdeithiol gael ei defnyddio yn y cyswllt hwn. Efallai y bydd yr Efengylwr yn cyflwyno'r darlleniad o'r Efengyl gyda'r cyfarchiad 'Yr Arglwydd a fo gyda chwi' a'r bobl yn ymateb 'A hefyd gyda thi.'

18. Yn wreiddiol bwriadwyd i'r arfer o enwi'r esgob yn yr ymbiliau ein hatgoffa o'n cymundeb â'r esgob. Er ei bod yn briodol ar adegau i weddïo dros arweinwyr yr eglwys fyd-eang neu leol hefyd, ni ddylai'r deisebau hyn gael eu cyfuno â gweddi dros yr esgob esgobaethol.

19. Lle mae mwy nag un clerig ar gael i arwain y cymun, nid oes angen i'r offeiriad wneud yr holl baratoi a chlirio ar yr allor. Gall clerigion cynorthwyol helpu trwy ryddhau'r offeiriad ar gyfer gweddi. Lle mae un ar gael, swyddogaeth diacon yw paratoi a chlirio'r allor.

20. Pan fydd Ewcharist yn cael ei gyd-weinyddu, dylai'r llywydd a'r cyd-weinyddwyr baratoi'n ofalus fel bod eu gweithredoedd litwrgaidd yn y weddi Ewcharistaidd yn mynegi undod yr offeiriadaeth y mae'r math hwn o ddathlu yn ceisio ei fynegi. Dylai cyd-weinyddwyr gymryd rhan yn dawel er mwyn caniatáu i'r prif gyd-weinyddwr gael ei glywed.

21. Dylai pob clerig fod yn gyfarwydd â'r defnydd cywir o lieiniau'r allor ar gyfer y cymun. *[Gweler yr Atodiad, nodyn 5.]*

22. Mae'n rhan o Ddatganiad Pedrochrog Lambeth, wrth ddathlu (Bedydd a'r) Ewcharist, y dylent gael eu *"ministered with unfailing use of Christ's words of institution and of the elements ordained by him".* Ni ddylid newid y rhain dan unrhyw amgylchiadau. Mae'n ofynnol hefyd i glerigion yn yr Eglwys yng Nghymru ddefnyddio'r ffurfiau awdurdodedig o weddi Ewcharistaidd, gan sicrhau unffurfiaeth rhwng litwrgi ac athrawiaeth.

23. Pan fydd y dosbarthiad mewn dathliad o'r Ewcharist yn cynnwys elfennau o'r sacrament a neilltuwyd, dim ond ar ôl diwedd y weddi Ewcharistaidd y dylai'r rhain gael eu dwyn at yr allor. Ar gyfer cymun drwy estyniad, gweler y canllawiau ar wefan yr Eglwys yng Nghymru. *[Gweler yr Atodiad, nodyn 6.]*

Derbyn y Cymun Bendigaid

24. Dylai offeiriaid dderbyn cymun yn eu dathliadau bob amser, ar ôl y gwahoddiad i dderbyn y cymun a chyn rhoi'r cymun i'r bobl.

25. Dylid rhoi cyfarwyddyd da i bobl ynghylch y ffordd briodol o dderbyn cymun, a dylai ymwelwyr fod yn gyfarwydd â disgyblaeth Ewcharistaidd yr Eglwys yng Nghymru.

26. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cynnig lletygarwch Ewcharistaidd i gyd Gristnogion sy'n ymweld â'n Heglwysi a rhannu yn ein haddoliad. O ran cyfraith ganonaidd ffurfiol, cynigir lletygarwch o'r fath i bob aelod o'r Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, ond drwy arfer mae'n ymestyn bellach i gylch ehangach i bob aelod ag enw da o Eglwysi Trindodaidd sydd wedi'i fedyddio ac yn derbyn y cymun, ond nid yw hynny i bawb . Nid ydym, er enghraifft, yn cynnig cymun i bobl heb eu bedyddio. Dylid cynnig arweiniad priodol neu dylai fod ar gael mewn fformat printiedig i gynorthwyo ymwelwyr, yn enwedig mewn gwasanaethau arbennig megis Bedydd Esgob. Byddai "Mae croeso hefyd i unrhyw un sy'n derbyn cymun mewn Eglwysi Cristnogol eraill dderbyn cymun yn ein gwasanaeth heddiw" yn wahoddiad priodol i'w gyhoeddi.

27. Mae angen ystyried yn ofalus a ddylid caniatáu i'r rhai sy'n derbyn y cymun dderbyn y bara Ewcharistaidd, ac yna'i gludo i'r cwpan cymun, a'i drochi yn y cwpan eu hunain. Mae'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â germau a gludir ar y bysedd yn fwy na rhannu'r un cwpan. Ni ddylid caniatáu i bobl gymryd y bara eu hunain. Pan fo derbyn bara yn angenrheidiol, dylai gael ei roi i bobl gan y gweinidog Ewcharistaidd.

28. Mae'r Gorchymyn ar gyfer y Cymun Bendigaid yn egluro sut y dylid cysegru bara a gwin ychwanegol pe bai angen gwneud hynny wrth weinyddu'r cymun. Yn ôl arferion hynafol, caniateir ychwanegu gwin anghysegredig at unrhyw win cysegredig sy'n weddill yn y cwpan cymun, os yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer gweinyddu ar unwaith. Fodd bynnag, gorau oll os gellir osgoi cysegru elfennau ychwanegol, a dylid gofalu bod cyflenwad digonol o fara a gwin ar gael yn yr Offrymiad.

29. Lle gallai derbyn cymun fod yn amhriodol, dylid cynnig bendith yn lle hynny a rhoi cyfarwyddyd clir. Mae'n hynod ddefnyddiol gwahodd pobl i roi arwydd clir wrth agosáu at yr allor eu bod am gael bendith, efallai drwy groesi eu breichiau ar draws eu brest, neu drwy gario llyfr gwasanaeth.

Cynnwys lleygion yn y litwrgi

30. Gan mai gwaith holl bobl Dduw yw'r cymun, dylai lleygion gael eu defnyddio cymaint ag y bo modd yn nathliad y litwrgi.

31. Dylai'r rhai sy'n darllen y Beibl mewn gwasanaethau eglwysig fod yn gyfarwydd â rheolau sylfaenol sy'n ymwneud â darllen mewn addoliad cyhoeddus:
    - Er mwyn sicrhau cysondeb yng nghyhoeddiad y gwersi, dylai enwau cywir llyfrau'r Beibl a'r ffordd gywir o'u cyhoeddi gael eu hymarfer a bod yn gyfarwydd o flaen llaw. *[Gweler yr Atodiad, nodyn 7.]*
    - Er mwyn sicrhau cywirdeb ac urddas, dylai darlleniadau gael eu darllen o'r Beibl neu lithlyfr, yn hytrach nag o daflen brintiedig.
    - Dylai darlleniadau gael eu darllen yn glir ac yn sensitif, nid yn rhy gyflym nac yn rhy araf, a dylai'r testun gael ei wirio o flaen llaw, fel y gall darllenwyr ofyn am gyngor ar eiriau ac ynganiad lletchwith cyn i'r gwasanaeth ddechrau.
    - Dylid gwirio dechrau darlleniadau fel eu bod yn dechrau mewn ffordd ddealladwy, e.e. Nid "ac meddai," ond, "meddai Iesu", neu fel y bo'n briodol.

32. Yn yr un modd, mae angen paratoi'r ymbiliau'n ofalus iawn, a'u cyflwyno mewn llais clir a bwriadol, gan gadw deisyfiadau'n fyr a syml, ac wedi'u gwreiddio yn anghenion yr eglwys, y byd a'r gymuned. Mae ymbiliau'n ddeisyfiadau neu anogaethau a ddilynir gan ddistawrwydd, er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n gweddïo wneud eu deisyfiadau distaw cysylltiedig eu hunain, felly mae'r defnydd o dawelwch yn arbennig o bwysig.

33. Dylai'r gynulleidfa gael ei hannog i gymryd rhan gyda'r ymatebion gyda hyder a brwdfrydedd. Mae ysbryd o ddathlu i'w annog yn arbennig yn yr 'Amen Fawr' ar ddiwedd y Weddi Ewcharistaidd er mwyn darparu diweddglo cadarn i'r weddi hon.

34. Dylid gofalu rhoi cyfarwyddyd i ystlyswyr a wardeiniaid eglwysi ynghylch tywys pobl ymlaen yn effeithiol ar gyfer y cymun fel y gall y rhai sy'n derbyn y cymun yn symud yn rhwydd at ac oddi wrth y man dosbarthu heb unrhyw fwlch neu ddryswch diangen.

35. Ym mhob mater sy'n ymwneud â dathlu'r Ewcharist, dylai lleygion sy'n cymryd rhan gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r offeiriad a gweithredu'n unol â chyfarwyddiadau'r lleoliad plwyfol dan sylw.

36. Dylai unrhyw leygion sy'n cymryd rhan ystyried cyrraedd yn gynnar, ugain munud efallai, cyn dechrau dathlu'r Ewcharist er mwyn caniatáu digon o amser i baratoi.

37. Os bydd camgymeriad, PEIDIWCH Â CHYNHYRFU; cywirwch y gwall mor ddiffwdan â phosib, gan symud ymlaen gyda pharch.

38. Ar gyfer unrhyw symud angenrheidiol o gwmpas yr eglwys yn ystod y gwasanaeth, dilynwch gyfarwyddiadau a gweithredoedd yr offeiriad. Er enghraifft, pan fo'r orymdaith yn cyrraedd o flaen yr allor, dylai pawb sydd o flaen yr allor ymgrymu a / neu benlinio gyda'r offeiriad. Lle bynnag y bo modd, dylai gorymdeithiau symud drwy gorff yr eglwys.

Y Flwyddyn Litwrgaidd

39. Mae digon o gyfle i bwysleisio tymhorau litwrgaidd y flwyddyn yn yr Ewcharist mewn ffordd sensitif a dychmygus, gan gydblethu hynny yn y litwrgi trwy air a gweithred a symbol.

40. Gellir creu llyfrynnau tymhorol ar wahân ar gyfer y gynulleidfa, gyda'r ymatebion priodol, kyriau, cyflwyniadau i'r heddwch, rhagymadroddion, bendithion, ac ati ar gyfer y tymor, er mwyn osgoi dryswch. Fel arall gall llyfryn wythnosol pwrpasol, neu lyfr tymor cyfan gyda bylchau i ganiatáu ar gyfer ychwanegiadau tymhorol fod yn briodol.

41. Dylai gorymdeithiau i ddathlu'r flwyddyn litwrgïaidd gael eu cynnal gyda pharch priodol a dylid egluro eu hystyr yn llawn.

42. Darperir adnoddau tymhorol priodol gan yr Eglwys yng Nghymru. *[Gweler yr Atodiad, nodyn 8.]*

Yr Adfent

43. Y lliw litwrgaidd ar gyfer yr Adfent yw fioled, ac eithrio ar gyfer trydydd Sul yr Adfent (Sul Gaudete) pryd y caniateir i rosliw gael ei ddefnyddio.

44. Arfer yr Eglwys yw peidio ag addurno'r adeilad gyda blodau yn ystod yr Adfent a'r Grawys, er y gall deiliach fod yn briodol weithiau yn ystod yr Adfent fel arwydd o'r Ymgnawdoliad sydd i ddod.

45. Mae adnoddau ar gael drwy'r rhyngrwyd ar y defnydd o dorchau Adfent a Choed Jesse yn ystod yr Adfent.

46. Yn draddodiadol, mae'r Gloria yn cael ei hepgor yn ystod yr Adfent.

47. Gall yr antiffonau ‘O’ fod yn addas i’w defnyddio rhwng 17 a 23 Rhagfyr.

48. Mae gwasanaethau carolau’r Adfent yn fwyaf addas ar Sul cyntaf yr Adfent, ond gallant gael eu cynnal yn nes ymlaen yn y tymor, os oes angen.

Y Nadolig a’r Ystwyll

49. Yn aml bydd gwasanaethau carolau’r Nadolig yn rhagweld dyfodiad tymor y Nadolig. Mae’n arfer bugeiliol caniatáu i’r gwasanaethau hyn gael eu cynnal yn ystod yr Adfent ar gyfer grwpiau cymunedol megis ysgolion, gan sicrhau bod litwrgi’r Sul yn cadw’r ymdeimlad o ddisgwyliad. *[Gweler yr Atodiad, nodyn 9]*

50. Gellir bendithio preseb y Nadolig yn ystod gwasanaeth preseb ar Noswyl Nadolig neu yn Ewcharist cyntaf y Nadolig. Cyflwynir y doethion yng Ngwledd Gŵyl Ystwyll.

51. Y lliw litwrgaidd ar gyfer y Nadolig a’r Ystwyll yw gwyn neu aur.

52. Dylai preseb y Nadolig barhau yn ei le hyd nes y Cyflwynir Crist, pan ddaw tymor y Nadolig i ben.

Y Grawys

53. Caiff y *‘Gloria in Excelsis’* ei hepgor yn ystod y Grawys, ac eithrio ar ddyddiau gwledd ac ar ddydd Iau Cablyd.

54. Caiff yr *‘Alelwia’* ei hepgor yn ystod y Grawys, tan Wylnos y Pasg pan gyhoeddir yr atgyfodiad.

55. Argymhellir gosod llwch i’w ddefnyddio ar Ddydd Mercher Lludw.

56. Y lliw litwrgaidd ar gyfer y Grawys yw fioled (neu wisg y Grawys), ac eithrio ar gyfer pedwerydd Sul y Grawys (Sul Gorfoledd) pryd y caniateir i rosliw gael ei ddefnyddio. Yn ystod y Dioddefaint mae coch yn ddewis amgen i fioled.

Wythnos y Pasg

57. Ar Sul y Blodau, gellir defnyddio Litwrgi’r Palmwydd, ac yna dylid darllen y Dioddefaint.

58. Dylai cynulleidfaoedd gael eu hannog i gymryd rhan mor lawn â phosib yn y litwrgi yn ystod Wythnos y Pasg, i gymell mwy o ffydd a defosiwn adeg y Pasg.

59. Argymhellir y seremoni golchi traed ar ddydd Iau Cablyd fel rhan o’r Litwrgi.

60. Rhaid osgoi drysu rhwng Ewcharist y Swper Olaf ar ddydd Iau Cablyd â dathlu pryd Seder Iddewig. Dylid gofalu osgoi cyfuno’r ddau, gan nad yw hyn yn parchu’r traddodiad Iddewig na’r traddodiad Cristnogol.

61. Y lliw litwrgaidd cywir ar gyfer Dydd Iau Cablyd yw gwyn.

62. Oni bai bod y sacrament yn cael ei gadw ar gyfer yr Ewcharist ar ddydd Gwener y Groglith, dylid ei ddefnyddio yn Ewcharist Dydd Iau Cablyd.

Y Pasg

63. Mae seremonïau hynafol Gwylnos y Pasg yn cael eu hargymell i'w defnyddio'n hwyr ar Noswyl y Pasg neu'n gynnar ar fore'r Pasg, fel rhan annatod o ddathliadau Pasg yr Eglwys. Ni ddylid drysu rhwng y rhain a 'gwasanaethau codiad haul' cynnar y bore, gan fod delweddaeth y litwrgi'n debygol o gael ei golli.

64. Dylai cannwyll y Pasg gael ei gosod mewn lle amlwg yn agos at yr allor yn ystod Tymor y Pasg ac yna'i symud i'r bedyddfaen ar ddiwedd Sul y Pentecost. Yna caiff ei chynnau ar gyfer bedydd a gellir ei gosod o flaen yr arch mewn angladdau.

65. Y lliw litwrgïaidd ar gyfer y Pasg yw aur neu wyn. Dylid defnyddio'r bonllefau Alelwia (ac Anthemau'r Pasg, lle y bo'n briodol) yn ystod y tymor y Pasg.

Y Pentecost

66. Y lliw litwrgaidd ar gyfer y Pentecost yw coch.

Amser Cyffredin

67. Y lliw litwrgaidd ar gyfer Amser Cyffredin yw gwyrdd. Y lliw litwrgaidd ar gyfer Seintiau a Sul y Drindod yw gwyn, neu goch ar gyfer merthyron. Y lliw litwrgaidd cywir ar gyfer tymor y Deyrnas (ac eithrio Gŵyl yr Holl Saint, sy'n wyn) yw coch er y gall gwyrdd gael ei ddefnyddio.

Nodiadau'r Atodiad

1. Mae angen arddull wahanol ar gyfer dathliadau'r Ewcharist sy'n wynebu'r dwyrain a'r gorllewin er mwyn cyfleu ystyr y litwrgi. Mae'r dathliad sy'n wynebu'r dwyrain yn pwysleisio model hierarchaidd o offeiriadaeth: yr offeiriad yn arwain gweddi ar ran y bobl. Mae'r dathliad sy'n wynebu'r gorllewin yn canolbwyntio ar fodel mwy colegol: yr offeiriad yn dathlu gyda'r bobl. Mae'n briodol, felly, mewn dathliad sy'n wynebu'r dwyrain, i'r offeiriad droi i wynebu'r bobl wrth eu hannerch (e.e. yn y *Sursum Corda*) ac i wynebu'r allor wrth annerch Duw. Er mwyn osgoi'r arfer ffyslyd braidd o 'symud y llyfr,' dylai llyfr yr Efengyl aros ar ochr yr Efengyl (ochr ogleddol) yr allor a'i symud ar ôl i'r Efengyl gael ei ddarllen i fwrdd cyfagos lle mae'n dal i fod yn weladwy, gan gadw'r teimlad o undod rhwng gair a sacrament.

2. Mae'r defnydd cywir o wisgoedd yn ategu'r addoliad drwy'r defnydd o liw a delweddau, ac yn darparu elfen o unffurfiaeth litwrgaidd Anglicanaidd, gan alluogi'r addolwr i adnabod ffocws y gwasanaeth lle bynnag y mae'n digwydd. Gall defnydd anghywir o wisgoedd amharu ar yr addoliad.

    a. Ewcharist. Dylai offeiriad wisgo alb neu wenwisg a stola yn y lliw litwrgaidd cywir. Gellir gwisgo casul yn y lliw litwrgaidd cywir dros alb a stola, ond nid dros wenwisg. Dylai diacon wisgo alb a stola yn y lliw cywir (a wisgir dros yr ysgwydd chwith). Gellir gwisgo dalmatig dros yr alb a'r stola. Pan fydd Darllenwyr trwyddedig yn cynorthwyo yn yr Ewcharist, dylent naill ai wisgo casog, gwenwisg a sgarff glas, neu alb; ond nid alb a sgarff glas.

    b. Boreol a Hwyrol Weddi. Gwisg côr i glerigion: casog a gwenwisg gyda sgarff du, a chwfl, os dymunir (y sgarff i'w wisgo dros y cwfl). Os dymunir, gellir gwisgo cota gyda chasog. Dylai darllenwyr wisgo casog a gwenwisg gyda sgarff glas.

3. Rôl esgob, offeiriad, diacon a lleygion yn yr Ewcharist: Mae'r nodiadau canlynol yn Cymun Bendigaid yr Eglwys yng Nghymru 2004: "Pan fo'r esgob yn bresennol, mae'n arferol iddo lywyddu yn y Cymun Bendigaid, a phregethu. Hyd yn oed pan nad yw'n llywyddu, ef sy'n datgan y Gollyngdod a chyhoeddi'r Fendith (os bydd un). Hyd y bo modd, dylai fod yn amlwg mai'r esgob neu'r offeiriad sy'n llywyddu dros holl wasanaeth yr Ewcharist er mwyn pwysleisio undod y gwasanaeth. Pan fo angen, gall diacon neu Ddarllenydd gymryd y gwasanaeth hyd at ddiwedd yr Ymbiliau, gan addasu'r Gollyngdod trwy osod "ni/ein' yn lle "chwi/eich". Dyletswydd y diacon yw cyhoeddi'r Efengyl, darparu elfennau'r bara a'r gwin, gweinyddu'r Cymun Bendigaid ac anfon allan y bobl. At hyn, gall y diacon gludo Llyfr yr Efengylau ar ddechrau'r gwasanaeth, pregethu pan fo wedi ei drwyddedu i wneud hynny, ac arwain yr Ymbiliau. Gweithred holl bobl Dduw yw'r Ewcharist. Mynegir gweinidogaeth aelodau'r gynulleidfa trwy gyfrwng eu rhan weithredol gydol y litwrgi, a thrwy i rai ohonynt ddarllen y darnau o'r Ysgrythur yn ystod Cyhoeddi'r Gair ac arwain yr Ymbiliau. Gall Darllenydd trwyddedig bregethu, a gall cynorthwywyr ewcharistaidd trwyddedig gynorthwyo i weinyddu'r Cymun."

4. Canllawiau ar annog y defnydd o ddistawrwydd: Cymeradwyir distawrwydd yn dilyn y darlleniadau ac yn ystod yr ymbiliau i alluogi pobl i gyflwyno'u meddyliau a'u gweddïau eu hunain gerbron Duw. Dylid annog distawrwydd lle nodir hynny yn y litwrgi, gan gynnwys fel rhan o'r ddefod o edifeirwch. Cymeradwyir distawrwydd hefyd wrth baratoi ar gyfer addoli. Gall y syniad o dawelwch beri braw i rai ac yn aml mae'n well ei gyflwyno fel llonyddwch, ffordd o dawelu'r meddwl er mwyn canolbwyntio ar Dduw. Gellid argymell y byddai gweddïau byr o gymorth, megis 'gweddi'r Iesu' (Arglwydd Iesu Grist, Mab y Duw Byw, bydd drugarog wrthyf i, bechadur,' gan ei byrhau'n raddol hyd nes mai dim ond y gair 'Iesu' sydd ar ôl).

5. Canllawiau ar y defnydd cywir o lieiniau allor. Mae'r erthygl ganlynol gan Project Canterbury yn hen, ond mae'n dal i fod yn gywir ac yn gynhwysfawr: http://anglicanhistory.org/england/misc/richards1932/

6. Cymun drwy estyniad: mae'r nodiadau cyfarwyddyd canlynol wedi'u cyhoeddi yn 'Cymun Bendigaid heb fod yn rhan o'r Ewcharist' gan yr Eglwys yng Nghymru. Bwriedir i'r drefn hon gael ei defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Felly, dim ar ôl hysbysu a gyda chaniatâd yr esgob bob tro y dylid ei defnyddio. Mae'r gweinidog naill ai'n ddiacon neu'n lleygwr sydd wedi ei drwyddedu'n briodol ar gyfer y diben hwn gan yr esgob. Pryd bynnag y bo modd, dylai'r bara a'r gwin cysegredig gael eu cludo'n uniongyrchol, mewn llestri a gynhyrchwyd ar gyfer y diben hwn, o ddathliad y Cymun Bendigaid i'r Eglwys lle maent i'w gweinyddu. Dylai'r gweinidog gynnal y gwasanaeth naill ai o'r ddesg ddarllen neu ddarllenfa, gan agosáu at y Bwrdd Sanctaidd yn union cyn gweinyddu'r sacrament a'i adael yn syth wedyn.

7. Canllawiau ar y ffurf gywir o gyhoeddi gwersi: Gellir cyflwyno Darlleniad o'r Hen Destament neu'r Testament Newydd naill ai drwy gyhoeddi'r Llyfr yn syml, ynghyd â'r Bennod a'r adnod lle mae'r darlleniad yn cychwyn (e.e. 'Llyfr y Proffwyd Eseia, pennod 6, adnod 8'), neu gyda'r geiriau 'darlleniad o ...' Lle mae'r darlleniad yn cychwyn ar ddechrau pennod dylid hepgor rhif yr adnod. I weld teitlau cywir llyfrau'r Beibl, dylid edrych ar dudalennau cynnwys y Beibl. Cyhoeddir yr Efengyl yn unol â'r cyfarwyddyd yn Cymun Bendigaid yr Eglwys yng Nghymru 1984 (e.e. 'Clywch yr Efengyl sanctaidd yn ôl Sant Luc') neu 2004 (Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Ioan).

8. Mae cyfeiriadau ar gyfer adnoddau tymhorol i'w gweld yn Cymun Bendigaid yr Eglwys yng Nghymru 2004 a deunydd *Amserau a Thymhorau* yr Eglwys yng Nghymru sydd i'w gyhoeddi yn 2016.

9. Mae anghysondebau amrywiol i'w gweld wrth ddefnyddio carolau cyn Diwrnod y Nadolig, er enghraifft, dylid cyfyngu ar y defnydd o'r pennill 'O! Henffych, ein Ceidwad...' ar ddiwedd 'O! Deuwch, ffyddloniaid' i Ddiwrnod y Nadolig (neu Ewcharist cyntaf y Nadolig). Cyn y dyddiad hwnnw, dylid ystyried hepgor y pennill yn gyfan gwbl.